**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 16eg Mehefin, 2016 at 5.00 pm**

**PRESENT:** County Councillor J. Higginson (Chairman)
County Councillor P. Jordan (Vice Chairman)

County Councillors: D. Batrouni, J. Prosser, D. Blakebrough, M. Powell, V. Smith, R. Chapman, J. Crook, D. Dovey, A. Easson, D. Edwards, D. Evans, P. Farley, P.A. Fox, R.J.W. Greenland, L. Guppy, E. Hacket Pain, R. Harris, B. Hayward, M. Hickman, P.A.D. Hobson, G. Howard, S. Howarth, P. Jones, S.B. Jones, B. Strong, F. Taylor, P. Watts, K. Williams and A. Wintle

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Paul Matthews | Chief Executive |
| Kellie Beirne | Chief Officer, Enterprise |
| Roger Hoggins | Head of Operations |
| Will Mclean | Head of Democracy, Engagement and Improvement |
| Joy Robson | Head of Finance/Section 151 Officer |
| Robert Tranter | Head of Legal Services & Monitoring Officer |
| Nicola Perry | Senior Democracy Officer |
| Mark Hand | Head of Planning, Housing and Place-Shaping |

**APOLOGIES:**

Councillors G. Burrows, P. Clarke, G. Down, R. Edwards, D. Jones, S. Jones, J. Marshall, P. Murphy, A. Watts, A. Webb and S. White

**2. Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

Nid oedd cwestiynau oddi wrth aelodau’r cyhoedd.

**3. Adroddiad y Cadeirydd a derbyn deisebau.**

Derbyniodd y Cyngor a nodi adroddiad y Cadeirydd.

Ni chyflwynwyd unrhyw ddeisebau.

Cydnabu’r Cyngor y Faner Enfys wedi’i hanner-gostwng, a ystyrid yn briodol o gofio’r amgylchiadau yn Orlanda lle saethwyd a lladdwyd 50 o bobl mewn clwb nos. Mynegodd y Cadeirydd fod meddyliau diffuant y Cyngor gyda pherthnasau a ffrindiau’r rheiny oedd yn y trychineb. Cynhaliodd y Cyngor funud o dawelwch.

Cynghorodd y Cadeirydd fod nifer o bobl ar draws Sir Fynwy wedi’u hanrhydeddu yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines, ac estynnodd longyfarchiadau i’r canlynol:

- Y Capten Gyrnol Andrew Tuggey, Is-Arglwydd Raglaw Gwent, a ddyfarnwyd y CBE;
- Mr. J. Rowlands, a ddyfarnwyd y BEM am ei wasanaeth i Neuadd Goffa Hood;
- Sarah Byford, a ddyfarnwyd yr MBE;

- Mrs. Jane Hart, a ddyfarnwyd yr MBE.

Clywsom y newydd trist am yr Aelod Seneddol Llafur Jo Cox yr ymosodwyd arni, ac a gollodd ei bywyd yn hwyrach, yn Swydd Efrog. Talodd y Cyngor barch iddi mewn munud o dawelwch.

## 4. Datganiadau o Fuddiant

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant gan Aelodau.

## 5. Cadarnhau a llofnodi cofnodion y dilynol:

### 5.1. Dydd Mercher, 4 Mai 2016 - Cyfarfod Arbennig

Cofnodwyd, cafwyd yn gywir a llofnodwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 4ydd Mai 2016.

### 5.2. Dydd Mawrth, 10 Mai 2016 - Cyfarfod Blynyddol

Cofnodwyd, cafwyd yn gywir a llofnodwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 10fed Mai 2016.

### 5.3. Dydd Iau, 12 Mai 2016 - Eitemau Gohiriedig

Cofnodwyd, cafwyd yn gywir a llofnodwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 12fed Mai 2016.

Wrth wneud hynny nodwyd y pwyntiau canlynol:
Tynnodd yr Aelodau sylw at yr angen am grŵp gweithredu i'w gynnwys gyda'r agenda a phwysigrwydd gweithredoedd yn cael eu diweddaru.

**Cywiriadau i eitem 19 - *Cadarnhau'r ymateb ysgrifenedig i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr adran newydd arfaethedig ôl draffordd yr M4 ( copi ynghlwm) ac ystyried pa sylw pellach, os oes un, y dymunai Aelodau ei anfon i Lywodraeth Cymru. Gwahoddwyd Aelodau i gadarnhau'r ymateb ysgrifenedig i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru.***

Tudalen 15 - lle gwneir cyfeiriad at y gefnffordd, dylid nodi rhan o'r B4245 yng Ngwndy, sydd i fod i ddod yn gefnffordd.

Tudalen 15 – dylai *cydgysylltu â llywodraeth Cymru* gyfeirio'n benodol at fecanwaith cydgysylltu ffurfiol rhwng Swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Sir, ac nid eu contractwyr.

Mynegodd Aelod siom gyda chynnwys y llythyr a gyflwynwyd wedi'r ddadl, ynghyd â rhwystredigaeth na chafodd y llythyr ei gylchynu i'r holl Aelodau. Nid ystyrid ansawdd y llythyr yn foddhaol.

Mewn ymateb cynghorodd Aelodau'r Cabinet y byddai'r llythyr yn cael ei ail-ddrafftio.

**Cywiriad i Dudalen 11 - Categori C - Cydbwyllgorau a Chwmnïau Awdurdod Lleol:**

Dylai nodi: Gofynnodd Aelod iddo gael ei gofnodi y penodir dau aelod i Archwiliad y Gwasanaeth Cyflawni Addysg a'r Pwyllgor Sicrhau Risg.

## 6. Derbyn cofnodion y dilynol:

### 6.1. Cofnodion cyfarfod dydd Llun 21 Mawrth 2016 y Pwyllgor Gwasanaethau

# MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

## Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 16eg Mehefin, 2016 at 5.00 pm

**Democrataidd**

Derbyniasom, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 21ain Mawrth 2016.

**6.2. Cofnodion cyfarfod dydd Iau 26 Mai 2016 y Pwyllgor Archwilio**

Derbyniasom, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 26ain Mai 2016.

**7. <u>Hysbysiadau Cynnig</u>**

Ni chodwyd unrhyw hysbysiadau cynnig gan Aelodau.

**8. <u>Adroddiadau Pennaeth Polisi ac Ymgysylltu:</u>**

**8.1. Diweddariad ar Raglen Adsefydlu Syriaid**

Cyflwynwyd i'r Cyngor ddiweddariad ar Raglen Adsefydlu Syriaid, y diben oedd:

- Rhoi diweddariad i'r Cyngor parthed y trefniadau ar gyfer rhan chyngor Sir Fynwy yn Rhaglen y Swyddfa Gartref ar Adsefydlu Syriaid.

Diolchwyd i'r Cynghorwyr Hacket Pain, Crook a Taylor am eu cyfraniad i'r rhaglen.

Yn ystod trafodaeth nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Byddai'n fuddiol hysbysu aelodau lleol o ffoaduriaid yn dod i'w hardal, er mwyn iddynt gadw llygad.
- Nodwyd bod Aelodau'n falch i glywed bod swyddogion wedi cydnabod argymhellion a wnaed gan y grŵp gorchwyl a gorffen a'u bod wedi edrych tuag at awdurdodau eraill a oedd wedi derbyn ffoaduriaid dan y rhaglen adsefydlu ac i fudiadau ehangach y trydydd sector. Dymunodd yr Aelodau fynegi diolch i'r swyddogion am gymryd amser i ddilyn yr argymhellion hyn. Nodwyd bod cydweithwyr yn OXFAM wedi bod o gymorth sylweddol, yn arbennig parthed cefnogaeth benodol i ffoaduriaid benywaidd.
- Nodwyd bod darparu Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) yn cyfeirio at y teulu cyfan ac nid plant yn cychwyn yn yr ysgol yn unig.
- Mynegodd Aelod ddiolch i'r Cyngor am ysgwyddo'r rhaglen, ac ychwanegodd y bu cynrychiolaeth lawn, yn edrych ar bob posibiliad.
- Diolchodd yr Aelod Cabinet i'r grŵp ac awgrymodd y byddai Seminar Aelodau arall yn fuddiol, er mwyn rhoi manylion i bob Aelod.
- Ni phenderfynwyd eto a fyddem yn cymryd rhan mewn cynllun plant amddifad.

Penderfynodd y Cyngor gytuno argymhellion o fewn yr adroddiad.

Bod y Cyngor yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth baratoi at gyrhaeddiad y ffoaduriaid cyntaf o Syria yn haf 2016; a bod y gweithgor Aelodau/Swyddogion yn parhau i oruchwylio'r trefniadau ar gyfer yr adeg pan gyrhaeddant.

**9. <u>Adroddiadau i'r Pennaeth Cynllunio:</u>**

**9.1. Mabwysiadu Cynllun diwygiedig Dirprwy Cynllunio**

Cyflwynwyd i'r Cyngor gynnig i ddiwygio Cynllun Dirprwyo Cynllunio. Y diben oedd i'r Cyngor fabwysiadu Cynllun Dirprwyo Cynllunio diwygiedig.

Wrth ystyried yr adroddiad, nodwyd:

- Cyfeiriodd Aelod at ddirprwyo swyddogion i ymateb ar ran y Cyngor i geisiadau am drwydded gweithredwr Cerbydau Nwyddau Trwm. Roedd pryder ynghylch pobl heb fod yn ymwybodol o geisiadau o'r fath, a chredid ei bod yn bwysig bod pobl leol yn ymwybodol o'r mater hwn. Gofynnwyd i Aelodau ystyried yn ddwys bod ceisiadau o'r fath yn mynd i'r Cyngor.
- Ystyriwyd newid i'r pwerau gorfodi fel un o'r rhannau mwyaf buddiol o'r Mesur Cynllunio, a dylid ei ddefnyddio'n llawn.

Penderfynasom gytuno'r argymhellion o fewn yr adroddiad.

- Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio diwygiedig ynghlwm wrth yr adroddiad, i'w fabwysiadu gan y Cyngor.
- Bod Pennaeth Cynllunio'n cael ei awdurdodi i ddiweddaru'r dogfennau uchod yn y dyfodol parthed cywiriadau ffeithiol i deitlau swyddi.

## 10. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2015-2016

Cyflwynwyd i'r Cyngor Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2015/16 a 2014/15.

Ar ran y Pwyllgor Archwilio, cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio'r adroddiad blynyddol yn cwmpasu 2014/2015 a 2015/2016 i'w ystyried gan y Cyngor.

Dangosodd yr adroddiad fod gwaith y Pwyllgor wedi bod yn werthfawr ac yn gynhyrchiol ac mae'n rhoi sicrwydd i'r Cyngor ynghylch gweithgarwch y Pwyllgor wrth reoli materion ariannol a materion eraill yn effeithiol gan yr Awdurdod.

Yn ystod trafodaeth nodwyd y canlynol:

- Gofynnwyd am eglurhad a oedd aelod lleyg y Pwyllgor Archwilio wedi'i gyfethol neu wedi'i benodi. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai'n cynghori maes o law.
- Cytunwyd, petai'r Pwyllgor Archwilio'n credu y byddai sefydlu is-bwyllgor yn cyfoethogi gwaith y pwyllgor, archwilid hyn wrth i'r angen godi. Ystyriodd Aelod y byddai'r is-grŵp yn drafodaeth bellach i geisio mwy o wybodaeth, a adroddid nôl i'r pwyllgor, a'i gofnodi fel arfer.

Penderfynasom dderbyn yr adroddiad.

## 11. Cwestiynau Aelodau:

### 11.1. gan y Cynghorydd Sir D. Batrouni i'r Cynghorydd Sir E.J. Hacket Pain

**Gan y Cynghorydd Sir D. Batrouni i'r Cynghorydd E.J. Hacket Pain:**

***Faint o athrawon cymwys cyfwerth oedd mewn ysgolion a gynhelir yn Sir Fynwy yn (i) 2012, (ii) 2013, (iii) 2014 a (iv) 2015?***

Mewn ymateb, cyflwynodd y Cynghorydd Hacket Pain waith papur gyda'r ffigyrau y gwnaed cais amdanynt. Rhoddwyd manylion fel a ganlyn::

(i) 629
(ii) 636

(iii) 633
(iv) 608

**11.2. gan y Cynghorydd Sir D. Batrouni i'r Cynghorydd Sir E.J. Hacket Pain**

**Gan y Cynghorydd Sir D. Batrouni i'r Cynghorydd Sir E.J. Hacket Pain:**

***Faint o staff cymorth llawn amser cyfwerth oedd mewn ysgolion a gynhelir yn Sir Fynwy yn (i) 2012, (ii) 2013, (iii) 2014 a (iv) 2015?***

Mewn ymateb, cyflwynodd y Cynghorydd Hacket Pain y ffigyrau canlynol:

(i) 522
(ii) 534
(iii) 543
(iv) 512

Fel cwestiwn atodol gofynnodd y Cynghorydd Batrouni a oeddem yn monitro'r ffigyrau hyn, ac os oeddem, pa mor aml?

Mewn ymateb eglurodd y Cynghorydd Hacket Pain fod ffigyrau'n cael eu monitro'n rheolaidd ond heb eu monitro yn y modd penodol y gofynnwyd amdanynt. Felly roedd tipyn o waith wedi'i neilltuo i ddarparu'r wybodaeth.

**11.3. gan y Cynghorydd Sir D. Batrouni i'r Cynghorydd Sir E.J. Hacket Pain:**

**Gan y Cynghorydd Sir D. Batrouni i'r Cynghorydd Sir E.J. Hacket Pain:**

**Beth oedd canran yr athrawon ysgol a gymerodd absenoldeb oherwydd salwch mewn ysgolion a gynhelir yn Sir Fynwy yn ystod (i) 2012, (ii) 2013, (iii) 2014 a (iv) 2015?**

Mewn ymateb eglurodd y Cynghorydd Hacket Pain y cyfrifid absenoldebau hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn, a darparodd y ffigyrau canlynol:

(i) 64%
(ii) 57%
(iii) 65%
(iv) 59%

Roedd y ffigyrau hyn yn cael eu monitro'n rheolaidd a dynodwyd meysydd cymorth.

**11.4. gan y Cynghorydd Sir D. Batrouni i'r Cynghorydd Sir E.J. Hacket Pain:**

**Gan y Cynghorydd Sir D. Batrouni i'r Cynghorydd Sir E.J. Hacket Pain:**

**Beth oedd cyfanswm nifer y diwrnodau yn absennol oherwydd salwch a gymerwyd gan athrawon mewn ysgolion a gynhelir yn Sir Fynwy yn ystod (i) 2012, (ii) 2013, (iii) 2014 and (iv) 2015?**

Mewn ymateb cyflwynodd y Cynghorydd Hacket Pain y ffigyrau canlynol:

(i) 5344
(ii) 4781
(iii) 4837
(iv) 4644

Nodwyd bod y ffigyrau'n rhedeg o Fedi i Fedi yn unol â'r flwyddyn academaidd.

**11.5. gan y Cynghorydd Sir D. Batrouni i'r Cynghorydd Sir E.J. Hacket Pain:**

**Gan y Cynghorydd Sir D. Batrouni i'r Cynghorydd Sir E.J. Hacket Pain:**

**Beth oedd cyfartaledd maint dosbarthiadau mewn ysgolion a gynhelir yn Sir Fynwy yng Nghyfnod Allweddol**
**(i) 1, (ii) 2, (iii) 3, (iv) 4 a (v) 5?**

Mewn ymateb cyflwynodd y Cynghorydd Hacket Pain y ffigyrau canlynol:

Cyfnod Allweddol 1

(i) 24
(ii) 25
(iii) 25
(iv) 26

Cyfnod Allweddol 2

(i) 26
(ii) 25
(iii) 26
(iv) 26

Cyfnod Allweddol 3

(i) 26
(ii) 26
(iii) 25
(iv) 26

Eglurodd y Cynghorydd Hacket Pain na ddarparwyd ffigyrau Cyfnod Allweddol 4, yn bennaf oherwydd bod llawer o amser swyddogion wedi'i dreulio i ddarparu'r ffigyrau, ac wrth gyrraedd Cyfnod Allweddol 4, gan edrych ar flynyddoedd TGAU a Lefel A, roedd ffigyrau penodol yn anodd dod o hyd iddynt.

Ychwanegodd y Cynghorydd Hacket Pain fod y ffigyrau wedi lefelu yn 2014 a 2015. Wrth edrych ar Gynllun Busnes y Gwasanaeth Cyflawni Addysg, o'u cymharu â'r rheiny yn ein consortiwm, roedd Sir Fynwy'n gyntaf ar draws y blynyddoedd hynny yn y cyfnod sylfaen gyda chynnydd o 5%. Roedd cyfnod Allweddol 2 yn $1^{af}$ yn 2012 a 2013, $2^{il}$ yn 2014 ac yn $1^{af}$ yn 2015 gyda chynnydd o 6%. Cyfnod Allweddol 4,$1^{af}$ eto ar draws yr awdurdodau.

Gofynnodd y Cadeirydd i ystadegau'r GCA gael eu cylchynu i'r holl Aelodau.

Fel cwestiwn ategol, gofynnodd y Cynghorydd Batrouni am eglurhad na fyddai'n derbyn y wybodaeth y gofynnodd amdani ar gyfer Cyfnodau Allweddol 4 a 5. Eglurodd y Cynghorydd Hacket Pain y gellid dod o hyd i'r wybodaeth, ond parthed amser swyddogion, roedd pryder faint fyddai cost y cwestiwn i'r Cyngor.

**12. I eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfodydd yn ystod ystyriaeth yr eitemau busnes dilynol ar y sail eu bod yn ymwneud â datgeliad tebygol o wybodaeth eithriedig**

**13. ADRODDIAD EITHRIEDIG gan y Pennaeth Cynllunio:**

**13.1. Tŷ Caerwent, Caerwent**

Cyflwynwyd i'r Cyngor adroddiad ar gynnydd y prosiect a chynnig gweithredu ynghylch y Gorchymyn Prynu Gorfodol parthed Tŷ Caerwent.

Yn dilyn trafodaeth penderfynodd y Cyngor dderbyn yr argymhellion yn yr adroddiad.

**The meeting ended at 6.00 pm**